# 10 awr o Addysg Wedi'i Hariannu

## AR GYFER PLANT 3 OED



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam
Wrexham Family Information Service

FUNDED EARLY EDUCATION WREXHAM
ADDYSG GYNNAR WEDI'I HARIANNU WRECSAM

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Ariennir gan
**Llywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# MYNYCHU ADDYSG GYNNAR A ARIENNIR

Trwy fynychu Addysg Gynnar wedi'i Hariannu bydd eich plentyn yn cael cyfleoedd i:

- Ddatblygu sgiliau trwy chwarae, dysgu seiliedig ar chwarae a phrofiadau bywyd go iawn
- Dyfu mewn hyder ac annibyniaeth
- Archwilio, ymchwilio a datrys problemau yn yr awyr agored a thu fewn
- Dysgu am ddiwylliant Cymreig a siarad Cymraeg
- Datblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd

Y cyfan yn unol â'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin wedi'i Hariannu yng Nghymru.



Ref: WCBC/ER662/19072023



Darperir lle wedi'i ariannu ar gyfer tymor y **Gwanwyn a'r Haf** i blant sy'n cael eu pen-blwydd yn 3 oed rhwng

**1 Medi i 31 Rhagfyr**

Darperir lle wedi'i ariannu ar gyfer tymor yr **Haf** i blant sy'n cael eu penblwydd yn 3 oed rhwng

**1 Ionawr a 31 Mawrth**

# LLEOLIADAU SY'N CAEL ARIAN

Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yw dechrau addysg statudol y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm yng Nghymru.

Rhaid i blant fod yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam i fod yn gymwys.

Lleoliadau cymeradwy Addysg Gynnar wedi'i Hariannu:

- Cyflwyno Addysg Gynnar yn y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar chwarae (dan do ac yn yr awyr agored)
- Rhaid cael staff â chymwysterau priodol
- Rhaid darparu'r sesiynau a nodir
- Bydd yn cael ei gefnogi gan athro cymwys yn rheolaidd
- Bydd yn cael ei arolygu gan ESTYN ac AGC

**NID YW** lle eich plentyn mewn lleoliad Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn gwarantu lle meithrin awtomatig mewn Ysgol yn Wrecsam. You must apply for a nursery place separately. Further details can be found on our Wrexham School Admissions website.

**RHAID** gwneud cais am leoedd Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar-lein neu ar y ffurflen dderbyn Addysg Gynnar a Ariennir. Mae ar gael i blant ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, yn dibynnu ar ddyddiad eu pen-blwydd.

Ar gyfer plant sy'n cael eu pen-blwydd yn 3 oed rhwng **1 Medi a 31 Rhagfyr**, bydd lle wedi'i ariannu yn cael ei ddarparu ar gyfer tymor y **Gwanwyn a'r Haf**.

Ar gyfer plant sy'n cael eu pen-blwydd yn 3 oed rhwng **1 Ionawr a 31 Mawrth**, bydd lle wedi'i ariannu yn cael ei ddarparu ar gyfer tymor yr **Haf**.

# CEISIADAU

O fis Medi gallwch wneud cais ar-lein am le Addysg Gynnar a Ariennir i'ch plentyn.

Gall eich plentyn gael lle mewn lleoliad wedi'i hariannu ar gyfer naill ai:

**5 sesiwn yr wythnos, un y dydd, dwy awr o hyd**

**neu**

**4 sesiwn yr wythnos, un y dydd, dwy awr a hanner o hyd**

Dim ond mewn un lleoliad yn unig y caiff lle wedi'i hariannu ei ddyrannu. Mae lleoliad wedi'i hariannu wedi'i gymeradwyo ar gyfer darparu Addysg i blant 3 oed a gall fod yn Gylch chwarae, Meithrinfa Ddydd Breifat, Dosbarth Meithrin neu Uned Blynyddoedd Cynnar mewn ysgol leol.

Y cyfan sydd ei angen arnoch yw eich cyfeiriad e-bost i gofrestru er mwyn gwneud cais ar-lein. Mae ffurflenni cais papur ar gael ar gais gan y tîm Addysg Gynnar a Ariennir.

Wefan: www.wrecsam.gov.uk

Ffôn: 01978 298991

Ebost: fundedearlyeducation@wrexham.gov.uk

# DYDDIADAU YMGEISIO

Mae'r dyddiadau ymgeisio ar gyfer derbyniadau mis Ionawr a mis Ebrill i'w gweld ar ein gwefan.

**Nodyn: Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu prosesu ar ôl y rhai a dderbyniwyd mewn pryd.**



## GWYBODAETH AM Y LLEOLIADAU

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam (GGiDW)

Ffôn: 01978 292094

Ebost: fis@wrexham.gov.uk

### Derbyniadau Ysgol

Ffôn: 01978 298991

Ebost:

admissions@wrexham.gov.uk

fundedearlyeducation@wrexham.gov.uk